Sesiwn Holi ac Ateb y Weminar ar Ddiwygio’r System Ddeintyddol

**Cyhoeddwyd.**

Sharlene Parmar-Anwar
Rwy'n gobeithio y bydd yr holl ddata yr ydych wedi'u defnyddio fel tystiolaeth i lunio'r contract newydd yn cael eu cyhoeddi pan fydd yr ymgynghoriad yn cael ei ryddhau. Rydym yn broffesiwn sy'n gweithio yn ôl data sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyfiawnhad clinigol ac felly rydym yn haeddu cael tystiolaeth glir.

Mae'r contract newydd wedi'i negodi gyda chynrychiolwyr o’r proffesiynau. Yn ystod y cyfarfodydd hyn rhannwyd y data oedd ar gael, ymchwil gyhoeddedig gyfoes a data a gomisiynwyd. Darparwyd y data hyn i Gymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA) i'w ddadansoddi ar ran y proffesiwn.

Zoe Luxton
Felly os oes gan eich Cleifion Hanesyddol (HP) blant ifanc, sut allwn ni ddweud “mae’n ddrwg gennym ond mae angen i chi fynd trwy'r Porth Mynediad Deintyddol (DAP)”, pam na allwn ni eu derbyn fel Cleifion Newydd (NP) os yw’r rhieni eisoes yn gleifion?

Mae hwn yn opsiwn os gofynnir amdano gan rieni sy'n cael gofal mewn practis. Bydd angen i'r practis roi gwybod i’r Bwrdd Iechyd lleol fod hyn wedi digwydd fel bod y plant yn cael eu cofnodi fel rhai wedi'u dyrannu. Bydd plant sy'n cael eu cofnodi ar y DAP gan rieni nad oes ganddynt berthynas â phractis penodol yn cael blaenoriaeth wrth ddyrannu lleoedd.

Laura
A fydd data byw ar gael ar eDEN? Nid yw data misol yn ddigon ar gyfer monitro.

Mae BSA wedi cyhoeddi gwybodaeth am ddata eDEN mewn bwletinau blaenorol. Ar hyn o bryd mae’r system eDEN yn cael ei diweddaru'n fisol ar ôl y dyddiad terfyn, fel y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y mis. Pe bai data dyddiol yn cael ei ddarparu, byddai hyn cyn torbwynt yr amserlen ac felly byddai'n cael ei newid yn ddyddiol, hyd nes torbwynt yr amserlen bob mis. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cyfrifo a/neu ddiweddaru ffigurau cleifion newydd a hanesyddol bob dydd. Fodd bynnag, mae meddalwedd newydd yn cael ei datblygu i gymryd lle Compass a allai wneud hyn yn bosib yn y dyfodol.

*Gwestai*
*Yn yr un modd ag y cafodd barn y proffesiwn deintyddol ar y contract ei hanwybyddu yn 2006, a fydd yr un peth yn digwydd gyda'r Contract newydd hwn? Ydych chi'n agored i drafodaeth a newid o gwbl?*

Mae'r contract newydd wedi'i negodi mewn partneriaeth gymdeithasol â chynrychiolwyr enwebedig y proffesiynau. Mae'r ymgynghoriad agored yn gyfle i sicrhau bod barn pawb yn cael ei chlywed – y cyhoedd a'r proffesiwn – bydd hyn yn llunio'r contract newydd.

*Katie*
*Fe wnaethoch chi sôn am ymestyn y cyfnod galw cleifion yn ôl i ganiatáu i fwy o gleifion ymuno â'r system. Ydych chi wir yn credu bod deintyddion yn galw eu cleifion yn ôl yn rhy aml?*

Ydym, o dan y system Uned Gweithgarwch Deintyddol (UDA). Mae'r trefniadau amrywiad wedi anghymell hyn, fodd bynnag maent hefyd yn anghymell galw'n ôl yn rheolaidd. Bydd y contract newydd yn sicrhau mynediad yn seiliedig ar angen clinigol a risg. Bydd y contract yn rhoi canllawiau clir trwy ddefnyddio canllawiau galw cleifion yn ôl NICE sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, bydd y contract yn rhoi'r ymreolaeth i dimau deintyddol benderfynu ar y bwlch rhwng apwyntiadau ac yn gadael i'r cyflawnwyr wneud y penderfyniad clinigol.

*Moroslav Yakimov*
*Os yw claf yn dymuno cofrestru gyda phractis deintyddol/deintydd penodol, sut fydd y Porth Mynediad Deintyddol (DAP) yn hwyluso hyn? Byddai dyrannu cleifion ar hap yn seiliedig ar argaeledd mewn practis ar hap yn ei hanfod yn cymryd hawl y claf i ddewis oddi arno.*

Mae un o'r meysydd wrth gofrestru ar y DAP yn ymwneud â'r pellter y mae'r claf yn fodlon teithio. Er mwyn hwyluso mynediad, bydd y DAP yn cynnig practis i gleifion o fewn eu pellter teithio. Mae ganddynt hawl i dderbyn neu wrthod y cynnig hwn. Os bydd y claf yn gwrthod y cynnig, bydd yn cael ei ddyrannu i bractis arall pan fydd apwyntiadau ar gael. Ni fydd cleifion yn gallu gofyn am bractis penodol.

Kirsty
A fydd cyfrif metrig ar gyfer apwyntiadau brys ar gyfer cleifion hanesyddol fel ag yn Uned Gweithgarwch Deintyddol (UDA) 1.2? Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer cleifion brys newydd sydd gennym fetrig.
Ni fydd y contract newydd yn seiliedig ar Unedau Gweithgarwch Deintyddol. Bydd yn cael ei rannu'n segmentau yn seiliedig ar weithgarwch penodol. Bydd hyn yn cael ei amlinellu'n fanylach yn y ddogfen ymgynghori.

*Jeremy*

*Mae BIPBC yn cynnig yr un warant diffyg presenoldeb ar gyfer cleifion newydd sy'n dod trwy DAP ag ar gyfer Cleifion Newydd Brys (NUP) sy'n dod trwy GIG 111, a allwn ni weld hwn fel polisi Cymru gyfan?*

*Menter gan y bwrdd iechyd lleol yw hon yn hytrach na pholisi Cymru Gyfan. Fel yn y blynyddoedd blaenorol o dan y trefniadau amrywiad mae gan bob bwrdd iechyd y cyfle i weithredu'r trefniadau fel y gwelant yn dda ar gyfer eu poblogaeth leol.*

Nathan Welch
A fydd yna ddarpariaeth i ddigolledu practisiau am achosion o Fethiant i Fynychu (FTA)? Mae hon yn broblem ariannol enfawr na ddylai gael ei hamsugno gan bractisiau o gwbl.

Mae hyn wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i nodi beth arall y gellir ei wneud i leihau achosion o fethiant i fynychu.

*Paul Fraser*
*O ran y DAP, nid yw practisiau'n gallu rhannu manylion cleifion oherwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Oes gennych chi ddatrysiad ar gyfer hyn?*

Mae GDPR yn atal rhannu data cleifion heb eu cydsyniad. Os yw practis eisiau rhannu data sydd ganddyn nhw, byddai angen i'r practis ceisio a chael cydsyniad gan y claf unigol.

Nathan Welch

Sut fydd Refeniw Taliadau Cleifion (PCR) yn cael ei strwythuro o dan y contract newydd?

Mae hyn wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

*Paul Fraser*
*O ran contract amrywiad y flwyddyn nesaf. Sut mae'n deg mai dim ond i bractisiau sy'n cyflawni dros y cyfartaledd canolrifol y mae lliniaru yn berthnasol? Pe bai'n deg, byddai lliniaru'n berthnasol i bob practis.*
Mae'r trefniadau amrywiad yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot cynnar ar gyfer diwygio'r system ddeintyddol a ddaeth i'r casgliad, er mwyn ymgorffori atal ac Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN) ac er mwyn gweld cleifion newydd, bod angen lleihau gweithgarwch (nifer y cleifion) 15-30% yn dibynnu ar anghenion y cleifion sy'n cael triniaeth. Mae'r trefniadau amrywiad yn gweithredu gostyngiad o 15% yn nifer y cleifion y mae angen eu gweld ar gyfer gwerth contract

penodol ac yna mae'r fformiwla lliniaru yn caniatáu gostyngiad pellach yn seiliedig ar lefel yr angen ymhlith y cleifion sy'n cael triniaeth.

Mae defnyddio'r cyfartaledd canolrifol yn sicrhau bod 50% o gontractau'n elwa ar liniaru. Byddai defnyddio cyfartaledd cymedrig yn arwain at lai o gontractau cymwys.

Karl Bishop (BIP Bae Abertawe - Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol (PCT)
A fydd y contract newydd yn cefnogi Datblygu Clwstwr Carlam (ACD) gyda ffocws ar gyflenwi lleol ar gyfer cymunedau, parhad gofal ac adeiladu practisiau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) 'teuluol'.

*Bydd rhagor o fanylion yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen gyswllt*

*Jeremy*
*Hyd yn oed trwy ddefnyddio cymhareb 1:1 (nad wyf yn ei derbyn) rydych chi'n dal i ofyn i ni weld 81 yn fwy o gleifion nag yn 23/24. Rwy'n gofyn fy nghwestiwn eto. Pam ei bod hi'n anoddach pan eich bod chi'n gwybod bod 35 o 55 wedi methu yn 23/24?*
Daeth y cynlluniau peilot diwygio deintyddol cynnar i'r casgliad, er mwyn ymgorffori atal ac ACORN a gweld cleifion newydd, fod angen lleihau gweithgarwch (nifer y cleifion) 15-30% yn dibynnu ar anghenion y cleifion oedd yn cael triniaeth. Felly mae'r cyfanswm rheoli yn tua 1550 o gleifion ar gyfer Gwerth Contract Blynyddol a Drafodwyd (NACV). Fe wnaethom syrthio islaw hyn yn 2023/24 fel rhan o addasu'r metrigau cleifion newydd a hanesyddol o blaid cleifion newydd.

Cyfanswm y cleifion ar gyfer 2024/25 oedd 1583 ac ar gyfer 2025/26 roedd yn 1545 felly bydd llai o gleifion yn cael eu gweld eleni ar y cyfan. Mae cyflwyno trosglwyddadwyedd dros y tri metrig hefyd yn golygu y gall practis â NACV o £197,725, ar yr amod bod y trothwy HP gofynnol yn cael ei gyrraedd, gyflawni ei gontract yn llawn trwy weld tua 1,268 o gleifion sydd tua 195 yn is nag yn 2023/24.

Nathan Welch
Rwy'n gwybod bod lliniaru ar gael o dan y metrig contract ar gyfer claf coch sydd angen mwy na 4 ymyriad. Ond mae hyn yn rhy amwys. Pam nad oes mwy o gyllid ar gyfer cleifion coch o'r cychwyn cyntaf?

*Mae hyn wedi cael ei ystyried yn y bwndeli triniaeth newydd a fydd yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori.*

*Nathan Welch*

*Sut nad oes adroddiadau byw ar gael o eDEN o hyd? Mae ceisio rhedeg busnes gyda data sydd fis allan o ddyddiad yn amhosibl.*

Ar hyn o bryd mae eDEN yn cael ei ddiweddaru'n fisol ar ôl torbwynt yr amserlen, fel y sefyllfa olaf ar ddiwedd y mis. Pe bai data dyddiol yn cael ei ddarparu, byddai hyn cyn torbwynt yr amserlen ac felly byddai'n cael ei newid yn ddyddiol, hyd nes torbwynt yr amserlen bob mis. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cyfrifo a/neu ddiweddaru ffigurau cleifion newydd a hanesyddol bob dydd. Fodd bynnag, mae meddalwedd newydd yn cael ei datblygu i gymryd lle Compass a allai wneud hyn yn bosib yn y dyfodol.

Nathan Welch

Os oeddech chi wir yn poeni am ein hintegreiddio ni â system ehangach y GIG, ble mae mynediad deintyddion at grynodeb clinigol y cleifion a ble mae ein cyfeiriadau e-bost GIG?

*Mae trafodaethau'n cael eu cynnal i ystyried y mater hwn, yn cynnwys presgripsiynu electronig*

Katie

*A fydd data poblogaethau Coch, Oren a Gwyrdd (RAG) practisiau yn cael eu defnyddio fel rhan o'r contract newydd? Rydym yn cofnodi data ar gleifion RAG sy'n amrywio'n fawr ar draws ardaloedd o Gymru, ond eto mae pob practis yn cael ei drin yr un fath ar hyn o bryd yn seiliedig ar gyllid.*

Bydd data ACORN yn cael eu casglu o gofnodion practis trwy ddefnyddio Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIs) meddalwedd. Bydd hyn yn llywio sgwrs gyda chleifion sy'n seiliedig ar anghenion a risg a bydd yn cynorthwyo practisiau i bennu eu llif cleifion.

Jeremy

Trwy ddefnyddio'r gymhareb 2.5:1 yr ydych wedi bod yn hapus i'w defnyddio ar gyfer cleifion newydd a chleifion newydd brys yn y gorffennol mae'n cyfateb i 118 o gleifion hanesyddol ychwanegol eleni.

Atebwyd hyn uchod

*Katie*

*Sut mae disgwyl i bractisiau alw cleifion yn ôl yn unol â chanllawiau NICE os disgwylir*

*iddynt barhau i dderbyn cleifion newydd flwyddyn ar ôl blwyddyn heb gyllid ychwanegol yn yr amlen?*

Bydd y contract newydd yn nodi'n glir sut mae'r contract yn cael ei rannu a fydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd y DAP yn cynorthwyo gyda galw cleifion yn ôl.

*Nathan Welch*
*Pam mae practisiau yng Nghymru sydd wedi dewis aros ar y contract UDA yn cael eu cosbi'n ariannol o'i gymharu â'n cymheiriaid yn Lloegr?*

Gofynnodd y proffesiwn am gontract newydd nad oedd yn seiliedig ar Unedau Gweithgarwch Deintyddol (UDAs). Mae'r practisiau hynny a ddewisodd barhau i weithio o dan UDAs wedi'u rhwymo gan delerau'r contract hwnnw. Bydd hyn yn cael ei ddatrys pan fydd y cytundeb newydd ar waith.

Al
Pam ydym ni'n symud i gontract newydd sydd, i bob golwg, heb gael ei dreialu?

Rydym wedi cael 3 blynedd o amrywiad sydd wedi cynorthwyo i lunio'r contract newydd hwn. Er enghraifft: mae segmentu contractau, Cleifion Newydd (NP) a Chleifion Newydd Brys (NUP) i gyd wedi cael eu treialu ac mae'r Porth Mynediad Deintyddol (DAP) yn cael ei threialu eleni.

*Al*
*Rydych chi wedi sôn am godiad a'r hyn sydd raid i ni ei wneud i'w gael. Pam nad yw codiadau byth yn cael eu cysylltu â chostau cyffredinol ac ati sydd wedi codi o flwyddyn i flwyddyn yn hytrach na disgwyl cael rhywbeth yn gyfnewid am y codiad? Mae'r codiad i gadw i fyny â'r twf cyffredinol fel cenedl ac mewn termau real mae deintyddiaeth yn dal i fod ymhell y tu ôl i gyflogau o'i gymharu ag 20 mlynedd yn ôl.*

Mae hwn yn safbwynt polisi gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i bob un o'r pedwar proffesiwn contractwyr annibynnol.

*Charles*
*Mae'r cynnydd parhaus mewn Targedau Cleifion Newydd (NPTs) flwyddyn ar ôl blwyddyn yn cael effaith enfawr ar y sylfaen cleifion gyffredinol. e.e. mae amrywiad 25/26 yn gofyn am gynnydd o 12% mewn NPTs i ychwanegu at y sylfaen cleifion - mewn 4 blynedd mae'r sylfaen cleifion wedi cynyddu 150% sy'n* anghynaladwy.

Mae'r metrigau amrywiad wedi cael eu haddasu bob blwyddyn yn seiliedig ar adborth gan ddeiliaid contractau. Ar gyfer 2024/25 clywsom fod y metrig Cleifion Hanesyddol

(HP) yn rhy uchel, a dyna pam y bu gostyngiad eleni a chynnydd yn y metrig Cleifion Newydd (NP). Dylai'r hyblygrwydd ychwanegol ar draws metrigau eleni hefyd gefnogi practisiau sydd â phoblogaeth HP sefydlog.

Bydd gan y contract newydd hyblygrwydd i ganiatáu i rywfaint o amrywiad gael ei ystyried os bydd materion o'r fath yn codi mewn practis. Yn absenoldeb cofrestru, pennir maint rhestr gan ddeiliad y contract fel busnes annibynnol a fydd yn penderfynu ar faint y rhestr i gyflawni gwerth ei gontract. Yr unig rwymedigaeth gytundebol yw'r angen i ddarparu gofal brys i gleifion hanesyddol o fewn amserlen resymol. I grynhoi, y warant a'r rheol am gleifion hanesyddol fydd yr unig ffactorau a fydd yn effeithio ar faint y rhestr.

Alex Horton
A fydd farnais fflworid yn orfodol dan y contract newydd? Os felly, a fydd ar sail pro rata yn hytrach nag yn adfachiad llwyr os bydd y targed yn cael ei fethu.
Ni fydd yna fetrig penodol ar gyfer farnais fflworid. Fodd bynnag, bydd gofyn i ddeiliaid contractau sicrhau bod eu tîm yn dilyn camau atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel yr hyn a amlinellir yn y ddogfen 'Delivering Better Oral Health' (Saesneg yn unig) sy'n argymell defnyddio farnais fflworid pan fo'n briodol yn glinigol. Bydd contractau'n cael eu monitro gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA) a gallai methu â darparu arferion o safon sy'n seiliedig ar dystiolaeth arwain at dor contract.

*Al*
*Os yw'r ymgynghoriad am fod yn effeithiol ac yn deg, faint o amser sy'n cael ei ddyrannu ar ôl y cyfnod ymgynghori i edrych ar newidiadau a gynigiwyd yn sgil adborth?*

*Rydym wedi cyflogi partner allanol i ymgymryd â'r dadansoddiad. Rydym yn disgwyl cael yr adroddiad cryno tua mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben a byddwn yn gweithio dros yr haf i nodi'r newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r adborth a gafwyd.*

*Charles*
*Os nad oes problemau yn codi yn ystod yr ymgynghoriad, pryd allwn ni ddisgwyl cael manylion manylach am yr hyn y gallwn ddisgwyl yn y contract newydd?*

*Ym mis Medi.*